
Penderfyniad Drafft ar gyfer y Chweched Cynulliad:

Dogfen ymgynghori

Chwefror 2020

Y Bwrdd Taliadau

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

Aelodau'r Bwrdd

- Y Fonesig Dawn Primarolo DBE PC (Cadeirydd)
- Ronnie Alexander
- Trevor Reaney CBE
- Mike Redhouse
- Y Fonesig Jane Roberts

Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

- Llew Williams, Clerc
- Ruth Hatton, Dirprwy Glerc

Gellir gweld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.cynulliad.cymru. Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn hefyd ar ffurfiau hygyrch yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain neu gopïau caled gan:

Clerc y Bwrdd Taliadau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Taliadau@Cynulliad.Cymru**

Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Sut i gyflwyno ymateb | 4 |
| Cyflwyniad | 5 |
| Y Bwrdd Taliadau | 7 |
| Crynodeb o'r newidiadau | 9 |
| Polisi Preifatrwydd | 11 |
| 1. Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad | 14 |
| 2. Newidiadau arfaethedig ar gyfer y Chweched Cynulliad | 17 |
| 3. Amcangyfrif o'r costau | 31 |
| 4. Cydraddoldeb | 34 |

Sut i gyflwyno ymateb

Os hoffech gyflwyno ymateb i ymgynghoriad Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gallwch wneud hynny drwy anfon eich ymatebion i'r cyfeiriad a ganlyn:

Post:

Clerc Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,

Caerdydd

CF99 1NA

E-bost: taliadau@cynulliad.cymru

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion yw **dydd Mawrth 24 Mawrth 2020**. Ni fydd unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

Os oes angen cymorth arnoch wrth baratoi eich ymateb, cysylltwch â'r ysgrifenyddiaeth gan ddefnyddio'r manylion uchod.

Cyflwyniad

Mae hanes y setliad datganoli yng Nghymru wedi newid cyfeiriad sawl gwaith hyd yn hyn, yn enwedig dros y pedair blynedd diwethaf. Gwelwyd cryn newid yn y Cynulliad yn ystod tymor Bwrdd Taliadau'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru hwn ("y Bwrdd"), gyda setliad newydd yn seiliedig: ar fodel cadw pwerau, mwy o bwerau cyllidol ym maes trethiant, y sefydliad yn newid ei enw¹ ac ehangu'r etholfraint. Hyn oll wrth i'r DU fynd ati i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Ochr yn ochr â'r newidiadau hyn, mae mwy o ystyriaeth yn cael ei rhoi bellach i sut i leihau'r rhwystrau fel bod unrhyw un sydd am sefyll etholiad yn gallu gwneud hynny.

Gan ymateb i'r materion hyn, mae'r Bwrdd wedi cyhoeddi ei Benderfyniad drafft ar gyfer y Chweched Cynulliad heddiw (5 Chwefror 2020). Mae'r drafft yn nodi'r newidiadau y mae'r Bwrdd yn bwriadu eu cyflwyno, er mwyn cefnogi Aelodau a'u staff cymorth yn ystod tymor y Chweched Cynulliad.

Mae ein hadolygiad o'r Penderfyniad hyd yma wedi dangos bod llawer o'r darpariaethau'n gweithio ac yn cefnogi Aelodau etholedig yn ôl y bwriad. Felly, mae unrhyw drefniadau sy'n gweithio, neu rai yr oeddem ni'n teimlo nad oedd modd eu gwella ymhellach, wedi aros fel y maent. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd wedi cynnig newidiadau a fydd, yn ei farn ef, yn gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i'r Aelodau a'r rhai sy'n dymuno sefyll i'w hethol i senedd genedlaethol Cymru. Gwnaed newidiadau o'r fath am un o'r rhesymau a ganlyn:

- I sicrhau bod y cymorth a'r tâl a gynigir i Aelodau â'r nod o leihau rhwystrau i'r rheini sydd am sefyll yn etholiadau'r Cynulliad ac i ddenu ymgeiswyr o gefndiroedd mwy amrywiol;
- I ddarparu mwy o dryloywder a gwella eglurder ar ddarpariaethau yn y Penderfyniad ar gyfer Aelodau, darpar ymgeiswyr Cynulliad a'r cyhoedd yn gyffredinol;
- i ddarparu gwell gwerth am arian i drethdalwyr.

¹ Ar 6 Mai 2020, yn unol â'r darpariaethau yn Neddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, bydd enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn newid i 'Senedd Cymru' neu 'Welsh Parliament'. Bydd enw llawn y Bwrdd Taliadau yn newid i Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd. Bydd y Penderfyniad terfynol ar gyfer y Chweched Cynulliad, a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni, yn cyfeirio at y sefydliad wrth ei enw newydd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynnal tri ymgynghoriad ar wahân fel rhan o'r adolygiad ehangach o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad. Mae'r Penderfyniad drafft yn dwyn ynghyd y penderfyniadau a wnaed o ganlyniad i'r ymgynghoriadau hynny, ynghyd â rhai newidiadau ychwanegol sydd wedi'u hystyried ymhellach ymlaen ar hyd y broses.

Mae'r ddogfen hon yn nodi rhesymeg y Bwrdd dros y newidiadau a gynigiwyd yn ei Benderfyniad drafft, fesul pennod. Mae amlinelliad hefyd o amcangyfrifon cost y newidiadau hyn.

Mae'r Bwrdd yn croesawu unrhyw gyfraniadau a safbwyntiau sydd gennych ar unrhyw agwedd benodol ar y Penderfyniad, neu'r pecyn yn ei gyfanrwydd. Rydym yn edrych ymlaen at glywed eich barn am y newidiadau a gynigiwyd.

Bwriad y Bwrdd yw cyhoeddi fersiwn derfynol o'r Penderfyniad drafft hwn ym mis Mai 2020, sef blwyddyn cyn etholiad cyffredinol Cymru yn 2021, er mwyn rhoi gwybod i ddarpar ymgeiswyr am y pecyn cymorth a fydd ar gael iddynt os byddant yn cael eu hethol.

Edrychaf ymlaen at glywed eich barn ar ein Penderfyniad drafft ar gyfer y Cynulliad nesaf.



Y Fonesig Dawn Primarolo,
Cadeirydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol

Y BWRDD TALIADAU

Mae'r adran hon yn disgrifio swyddogaethau'r Bwrdd, ei gylch gwaith a'i ffyrdd o weithio.

Swyddogaethau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol i gyflawni eu swydd yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Mae manylion llawn am swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Bwrdd wedi'u nodi yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ac ym **Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010** (y Mesur). Mae'r Mesur yn nodi tri phrif amcan y mae'n rhaid i'r Bwrdd geisio eu cyflawni wrth wneud

Penderfyniad, sef:

- darparu lefel o dâl i Aelodau sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y maent yn ymgymryd â hwy, ac nad yw'n rhwystro unigolion, am resymau ariannol, rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad;
- darparu adnoddau digonol i Aelodau i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau;
- sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

Wrth ddatblygu ei Benderfyniad, mae'r Bwrdd yn ymgynghori â'r rheini y mae ei benderfyniadau'n debygol o effeithio arnynt. Mae hynny'n cynnwys Aelodau, staff a gyflogir gan Aelodau neu gan grwpiau'r pleidiau, yr undebau llafur perthnasol ac unrhyw randdeiliaid priodol eraill. Mae'r Bwrdd yn adolygu effeithiolrwydd y Penderfyniad yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben.

Wrth ddatblygu ei Benderfyniad ar gyfer y Cynulliad nesaf, nod y Bwrdd yw sicrhau bod y cymorth sydd ar gael i Aelodau yn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol i sefyll i gael eu hethol i'r Cynulliad.

Egwyddorion

Mae cyfres o egwyddorion a ddiffiniwyd yn glir wedi bod yn sail i waith y Bwrdd hyd yn hyn:

- dylai'r cymorth ariannol a'r tâl a roddir i Aelodau gefnogi diben strategol y Cynulliad a hwyluso gwaith ei Aelodau;
- rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;
- rhaid i'r system cymorth ariannol ar gyfer Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw ac yn gynaliadwy, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

Yn 2016, datblygodd y Bwrdd set newydd o egwyddorion ac amcanion llywodraethu, cyn cyhoeddi ei **strategaeth** ar gyfer cyflawni ei waith yn ystod y Pumed Cynulliad. Adolygodd y Bwrdd y cynnydd a wnaed yn erbyn ei amcanion strategol yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2018. Mae crynodeb o'r drafodaeth ar gael yn **Adroddiad Blynyddol y Bwrdd ar gyfer 2017-18**.

Crynodeb o'r newidiadau

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg eang o'r prif newidiadau a wnaed i'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad.

Yn dilyn tri ymgynghoriad ar wahân a gynhaliwyd yn 2019, mae'r Bwrdd yn cynnig bod y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad yn cynnwys y newidiadau a amlinellir isod. Mae'r wybodaeth esboniadol berthnasol sy'n gysylltiedig â phob newid ar gael ar y dudalen gyfatebol yn y ddogfen hon. Mae'r Bwrdd yn cynnig:

- 1.** Mewnosod gwybodaeth ychwanegol ym Mhennod 1 i amlinellu priod rolau'r Bwrdd a Chomisiwn y Cynulliad mewn perthynas â'r Penderfyniad (tudalen 17).
- 2.** Cynnal y cyflog sylfaenol presennol a'r cyflog presennol i ddeiliaid swyddi ychwanegol ar gyfer y Chweched Cynulliad, yn amodol ar fynegeio blynyddol (tudalen 19).
- 3.** Bod Aelod sy'n cyflawni dyletswyddau Prif Weinidog dynodedig, Cwnsler Cyffredinol dynodedig, a Llywydd dros dro yn cael eu talu. At hynny, yn dibynnu ar faint o amser y mae'n cyflawni'r rôl, bod Aelod sy'n gweithredu fel Cadeirydd Pwyllgor dros dro hefyd yn cael ei dalu (tudalen 21).
- 4.** Diwygio'r Gronfa Cydraddoldeb a Mynediad drwy gynnwys darpariaeth "Cymorth ar gyfer Anableddau" newydd i roi cymorth i Aelodau a staff cymorth ag anableddau. Mae hyn hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymgysylltu ag etholwyr sydd ag anableddau (tudalen 22).
- 5.** Rhoi cyfraniad rhannol at gostau gofalu Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu am naill ai plant neu oedolion dibynnol, i'w galluogi i barhau i gyflawni eu cyfrifoldebau fel Aelod Cynulliad (tudalen 23).
- 6.** Darparu adnoddau ychwanegol i Aelodau sy'n dewis cymryd absenoldeb ar ôl rhoi genedigaeth neu fabwysiadu plentyn neu blant, hyd at uchafswm o 12 mis (tudalen 24).
- 7.** Bod y trefniadau ar gyfer hawlio taliadau llog morgais am lety sy'n eiddo i Aelod yn dod i ben ar ddiwedd y Chweched Cynulliad. At hynny, o ran hawlio llog morgais yn ystod y Chweched Cynulliad, ni chaiff y swm a hawlir fod yn uwch na'r gyfradd llog fel y'i hamlinellwyd ar ddechrau'r Chweched Cynulliad, oni fydd newidiadau i gyfradd sylfaenol Banc Lloegr (tudalen 25).

- 8.** Bod y bennod yn y Penderfyniad ynghylch "Costau Swyddfa" yn cael ei hailenwi yn "Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr", er mwyn adlewyrchu'n well y modd y defnyddir y lwfans (tudalen 26).
- 9.** Y dylai pob swyddfa etholaethol neu ranbarthol a ariennir drwy'r Penderfyniad ddilyn cyfres o egwyddorion, ac y dylai Aelodau sicrhau bod copïau o ddogfennaeth berthnasol yn cael eu cyflwyno i Gomisiwn y Cynulliad (tudalen 26).
- 10.** Bod y ddarpariaeth ynghylch "cyflenwi dodrefn swyddfa" yn cael ei diwygio i "lwfans cychwyn swyddfa", er mwyn adlewyrchu'n well y ffordd y mae'n cael ei defnyddio (tudalen 27).
- 11.** Bod Aelodau sydd am brynu offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ychwanegol yn cyflwyno cais ysgrifenedig am yr eitemau hynny (tudalen 27).
- 12.** Bod yn rhaid i Aelod ddilyn cyfres o gamau a amlinellwyd, gan gynnwys ceisio cyngor cyfreithiol am y brydles, cyn llofnodi cytundeb i rentu swyddfa etholaeth neu swyddfa ranbarthol (tudalen 26).
- 13.** Y dylai'r Aelod sy'n cyflogi neu Arweinydd y Blaid Wleidyddol bennu cyflog cychwynol ei staff cymorth, yn amodol ar ddilyn y canllawiau perthnasol (tudalennau 28 a 29).
- 14.** Bod yn rhaid i leoliadau di-dâl gadw at bolisi Lleoliadau Di-dâl newydd (tudalen 28).
- 15.** Y dylid rhoi tâl i unrhyw intern ar leoliad, ac eithrio'r rhai a drefnir drwy gyrsiau addysgol, sy'n para yn fwy na phedair wythnos (tudalen 28).
- 16.** Bod staff cymorth sy'n cael eu diswyddo, am fod yr Aelod sy'n eu cyflogi'n ymddiswyddo oherwydd salwch neu'n ailstrwythuro ei dîm o staff yn ystod Cynulliad, yn cael swm ychwanegol sy'n werth 100 y cant o'u hawl dileu swydd statudol (tudalen 30).
- 17.** Bod staff cymorth sy'n gweithio i Blaid Wleidyddol sy'n cael eu diswyddo am fod eu Plaid Wleidyddol yn colli Aelod, neu'n cael ei gostwng i lai na thri Aelod, yn cael swm ychwanegol sy'n werth 100 y cant o'u hawl dileu swydd statudol (tudalen 30).
- 18.** Bod y rheolau ynghylch defnyddio'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu yn cael eu cynnwys yn y Penderfyniad er mwyn eglurder (tudalen 30).

Polisi Preifatrwydd

Mae'r datganiad isod yn rhoi trosolwg cyffredinol o'r ffordd y byddwn yn trin y wybodaeth a roddir gennych.

Pwy ydym ni

Y Bwrdd yw rheolydd data'r wybodaeth a roddir gennych, a bydd yn sicrhau y caiff y wybodaeth hon ei diogelu a'i defnyddio yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

Pam rydym yn casglu'r wybodaeth hon

Caiff y sylwadau a gyflwynir gennych eu defnyddio er mwyn llywio adolygiad y Bwrdd o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth hon

Bydd aelodau'r Bwrdd ac ysgrifenyddiaeth y Bwrdd (cyflogeion Comisiwn y Cynulliad) sy'n rhan o'r ymgynghoriad yn gweld yr holl sylwadau a gyflwynir. Caiff eich gwybodaeth ei chadw ar rwydwaith TGCh Comisiwn y Cynulliad (sy'n cynnwys gwasanaethau cwmwl trydydd parti a ddarperir gan Microsoft). Mae unrhyw ddata a drosglwyddir gan Microsoft y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn dod o dan gymalau contractiol lle mae Microsoft yn sicrhau bod data personol yn cael eu trin yn unol â deddfwriaeth Ewropeaidd.

Cyhoeddi sylwadau

Mae'n bosibl y bydd y Bwrdd yn cyhoeddi'r sylwadau a gyflwynir gennych i'r ymgynghoriad hwn, yn rhannol neu'n llawn, ar wefan y Bwrdd. Mae hefyd yn bosibl y bydd yn cyhoeddi darnau o'r sylwadau a gyflwynir gennych mewn dogfennau a gaiff eu llunio ar ôl yr ymgynghoriad a'u cyhoeddi ar wefan y Bwrdd. Bydd sylwadau a gaiff eu cyflwyno a'u cyhoeddi ar wefan y Bwrdd yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd.

Rhowch wybod inni pe bai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'r sylwadau a gyflwynir gennych, neu ddarnau ohonynt.

Os bydd y Bwrdd yn cyhoeddi sylwadau a gyflwynwyd gennych ar ran sefydliad, bydd yn cynnwys eich enw chi, teitl eich swydd, ac enw'r sefydliad gyda'ch sylwadau. Os bydd yn

cyhoeddi sylwadau a roddwyd gennych chi'n bersonol, dim ond os ydych wedi gofyn i ni gyhoeddi eich enw y byddwn yn gwneud hynny.

Am faint o amser y byddwn yn cadw eich gwybodaeth

Caiff yr ymatebion eu cadw nes i'r Bwrdd orffen yr ymgynghoriad ac unrhyw waith dilynol yn y meysydd a amlinellir yn y ddogfen hon. Rhagwelir y bydd hyn am y cyfnod y bydd y Penderfyniad sy'n destun yr ymgynghoriad hwn mewn grym, i helpu i lywio adolygiadau blynyddol o'r Penderfyniad.

Cysylltu â chi

Mae'n bosibl y bydd y Bwrdd yn defnyddio'r manylion cyswllt a roddir gennych i gysylltu â chi mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn a'r sylwadau a gyflwynwyd gennych, ac unrhyw waith ychwanegol a wneir fel rhan o'r adolygiad hwn. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, rhowch wybod i ni a ydych am i ni gadw'ch manylion cyswllt a chysylltu â chi at y dibenion hyn. Os penderfynwch eich bod yn fodlon i ni barhau i gysylltu â chi, cewch roi gwybod i ni, ar unrhyw adeg, nad ydych am i ni wneud hynny mwyach.

Ceisiadau am wybodaeth a wneir i Gomisiwn y Cynulliad

Os gwneir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych yn llawn neu'n rhannol. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a gafodd ei dileu o'r blaen gan y Bwrdd at ddibenion cyhoeddi. Dim ond os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith y bydd y Bwrdd yn gwneud hynny.

Eich hawliau

Caiff eich data personol eu prosesu er mwyn i'r Bwrdd ymgymryd â thasg er budd y cyhoedd. Os hoffech:

- arfer unrhyw un o'r hawliau sydd gennych o dan y ddeddfwriaeth (megis yr hawl i ofyn am gael mynediad at eich data eich hun);
- gofyn cwestiwn; neu
- gwyno am sut y defnyddiwyd eich gwybodaeth;

cysylltwch â'r ysgrifenyddiaeth.

Gallwch hefyd gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych yn credu nad ydym wedi defnyddio eich gwybodaeth yn unol â'r gyfraith. Ceir manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ei gwefan: [**www.ico.org.uk**](http://www.ico.org.uk).

1. Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o adolygiad y Bwrdd o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad.

Y cefndir

1.1. Ym **mis Rhagfyr 2018**, cytunodd y Bwrdd i'r cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer ei adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad. Mi fydd y Bwrdd yn adolygu:

- addasrwydd lefel y gefnogaeth a ddarperir yn y Penderfyniad;
- hyblygrwydd, rhagnodoldeb a hygyrchedd y darpariaethau;
- gonestrwydd, atebolrwydd, rhesymoldeb a thryloywder y gwariant sydd ar gael.

1.2. Cytunodd y Bwrdd i gynnal ei adolygiad mewn tair rhan, fel yr amlinellir isod:

- Rhan un: Gwariant ar Lety Preswyl, Siwrneiau Aelodau a'r Lwfans Costau Swyddfa;
- Rhan dau: Cymorth i Aelodau a Chymorth i Bleidiau Gwleidyddol;
- Rhan tri: Tâl Aelodau ac Aelodau'n gadael eu swyddi.

1.3. Ar ôl ystyried y materion sy'n codi yn sgil pob rhan, cynhaliodd y Bwrdd ymgynghoriad ar ei gynigion i ddiwygio unrhyw ddarpariaethau yn y rhan honno. Mae'r Bwrdd wedi cwblhau ei adolygiad o'r tair rhan ac mae ymgynghoriad terfynol ar y Penderfyniad yn ei gyfanrwydd yn cael ei gyhoeddi i sicrhau bod y pecyn cymorth ariannol i Aelodau yn parhau i fod yn addas at y diben. Mae rhagor o wybodaeth am ymgynghoriadau blaenorol ar gael ar **wefan y Bwrdd**.

1.4. Mae'r Bwrdd wedi ymrwmo i gyhoeddi ei Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad flwyddyn cyn etholiad cyffredinol Cymru yn 2021, er mwyn sicrhau bod yr holl ymgeiswyr posibl yn cael y wybodaeth briodol am y pecyn tâl a chymorth a fydd ar gael i Aelodau'r Chweched Cynulliad.

Methodoleg

1.5. Yn ystod y Cynulliad hwn, mae'r Bwrdd wedi cynnal sawl ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn cael adborth ar weithredu'r Penderfyniad yn ymarferol. Mae'r cyfleoedd hyn wedi cynnwys digwyddiadau ymgysylltu a chyfarfodydd gydag Aelodau a staff cymorth, ymweliadau â swyddfeydd ledled gogledd a de Cymru, arolygon a chyfarfodydd rheolaidd â chynrychiolwyr Aelodau a staff.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwahanol ddulliau hyn hefyd wedi'i hategu gan ymchwil allanol a gomisiynwyd gan y Bwrdd. Drwy dendr agored, comisiynodd y Bwrdd **Ganolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd** a **Ysgol Proffesiynau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Metropolitan Llundain** i nodi'r **rhwystrau a'r cymhellion o ran ymgeisio yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**.

1.6. Er mwyn sicrhau bod pob penderfyniad yn dryloyw, yn atebol ac yn adlewyrchu amodau'r farchnad, mae'r Bwrdd hefyd wedi ystyried y darpariaethau presennol o'u cymharu â ffynonellau gwybodaeth eraill gan gynnwys:

- sut y mae Aelodau'n defnyddio'r lwfansau amrywiol hyd yn hyn yn y Pumed Cynulliad;
- cymariaethau â'r cymorth sydd ar gael i gynrychiolwyr etholedig yn neddfwrfeydd eraill y DU;
- cymariaethau ag amryw fesurau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

1.7. Mae'r Bwrdd hefyd yn gweithio gyda Diverse Cymru i lunio Asesiad o Effaith y Penderfyniad Drafft ar Gydraddoldeb. Mae'r Bwrdd wedi ystyried a rhoi sylw i faterion cydraddoldeb drwy gydol ei adolygiad hyd yn hyn ac mae am sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol na gwahaniaethol yn codi o'i gynigion. Cyhoeddir Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ochr yn ochr â'n hadroddiad terfynol ar y Penderfyniad, yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Yr ymgynghoriad hwn

1.8. Mae gweddill y ddogfen hon yn amlinellu cynigion ymgynghori'r Bwrdd.

1.9. Mae'r prif newidiadau a gynigir i Benderfyniad y Bwrdd ar gyfer y Chweched Cynulliad yn cael eu hamlygu yn y Penderfyniad drafft sy'n cyd-fynd â'r ddogfen ymgynghori hon.

1.10. Yn ogystal â'r newidiadau a amlygwyd i'r lwfansau fydd ar gael i Aelodau yn y Cynulliad nesaf, mae'r Penderfyniad drafft yn cynnwys mân ddiwygiadau er mwyn darparu mwy o eglurder a chysondeb â'r darpariaethau presennol.

1.11. Amlinellir rhai darpariaethau newydd a fewnosodwyd yn y Penderfyniad drafft, megis penodau neu baragraffau newydd, gan ddefnyddio llythrennau yn nhrefn yr wyddor. Er enghraifft, mae'r bennod newydd ar "Gymorth Ychwanegol i Aelodau" wedi'i rhifo fel "Pennod 3A" yn hytrach nag fel "Pennod 4". Bwriad hyn yw sicrhau cysondeb rhwng fersiynau o'r Penderfyniad.

1.12. Bydd lwfansau a amlinellir yn y Penderfyniad drafft ar gyfer y Chweched Cynulliad yn cael eu hadolygu cyn i'r Penderfyniad hwnnw ddod i rym. Er enghraifft, mae cyflogau Aelodau yn cael eu mynegeoio bob blwyddyn gan y newid yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. Nid yw'n bosibl cyfrifo ymlaen llaw y lwfansau a fydd yn gymwys i Aelodau'r Chweched Cynulliad. Y lwfansau a amlinellir yn y Penderfyniad drafft yw'r rhai sy'n gymwys ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn cael eu newid wrth i'r lwfansau yn y mynegai ar gyfer y Chweched Cynulliad gael eu cyfrifo cyn ac yn ystod y Chweched Cynulliad.

2. Newidiadau arfaethedig ar gyfer y Chweched Cynulliad

Mae'r adran hon yn nodi rhesymau'r Bwrdd am y newidiadau a gynigir i'w Penderfyniad fesul pennod.

Dehongli

2.1. Mae'r Bwrdd wedi diwygio'r darpariaethau hyn drwy gyflwyno diffiniadau pellach o ystyr "cyswllt busnes", "cronfeydd canolog", "anabledd", "aelod teulu", "derbynebau" a "lleoliad di-dâl". Y bwriad yw darparu gwell gwybodaeth i ddefnyddwyr y Penderfyniad.

2.2. Mae'r Bwrdd hefyd wedi ceisio cyflwyno diffiniad o "ddyletswydd Aelod". Y diben wrth wneud hynny yw sicrhau bod eglurder ynghylch y math o weithgarwch (busnes seneddol, etholaethol neu ranbarthol) y gellir ei ariannu o'r Penderfyniad a bod hyn yn cael ei gymhwyso'n gyson drwyddo draw. Ar hyn o bryd, dim ond mewn perthynas â siwrneiau Aelod y diffinnir "dyletswydd Aelod".

Pennod 1: Cyflwyniad ac egwyddorion cymorth ariannol

2.3. Mae'r Bwrdd wedi ceisio diwygio'r egwyddorion o ran cymorth ariannol (paragraff 1.3) yn y Bennod hon i ddiweddarau'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd yn ystod y Pumed Cynulliad, yn ogystal ag egluro ystyr rhai o'r egwyddorion.

2.4. Cyflwynwyd dau baragraff newydd (paragraffau 1.3A ac 1.3B) er mwyn egluro'r gwahanol rolau sydd gan y Bwrdd a Chomisiwn y Cynulliad o ran y Penderfyniad. Mae'r manylion ym mharagraff 1.3A yn amlinellu'r egwyddorion sydd wedi llywio gwaith y Bwrdd dros gyfnod y ddau Gynulliad diwethaf. Cytunodd y Bwrdd y byddai cynnwys yr egwyddorion hyn yn helpu o ran gwella tryloywder a dealltwriaeth pobl o broses y Bwrdd wrth wneud penderfyniadau. Mae paragraff 1.3B wedi'i gynnwys i egluro swyddogaethau'r Comisiwn mewn perthynas â'r Penderfyniad. Mae'n nodi mai Comisiwn y Cynulliad sy'n gyfrifol am ddarparu'r cyllid sydd ei angen a'i oruchwylio, a gweinyddu gwariant. Mae hyn hefyd yn pwysleisio rôl y Swyddog Cyfrifyddu a'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau wrth ddehongli'r Penderfyniad a chynnig cefnogaeth i'r Aelodau wneud hawliadau cymwys.

2.5. Mae'r Bwrdd hefyd wedi symud darpariaeth "Cydraddoldeb" y Penderfyniad blaenorol, gan gynnwys manylion y Gronfa Cydraddoldeb a Mynediad, ac wedi gosod y cymorth a amlinellwyd mewn pennod newydd (gweler y manylion am Bennod 3A). Mae'r Bwrdd wedi ceisio lleihau'r rhwystrau sydd yn ffordd Aelodau neu ddarpar ymgeiswyr rhag gallu cyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau etholedig yn y Cynulliad Cenedlaethol. Yn sgil hynny, mae'r Bwrdd wedi rhoi mwy o eglurhad am gymorth o'r fath ac wedi rhoi lle mwy amlwg iddo yn y Penderfyniad.

Pennod 2: Rheolau cyflwyno ceisiadau

2.6. Mae'r Bwrdd o'r farn bod yr Aelodau'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd personol o ran hawlio am wariant sy'n gwasanaethu'r sefydliad a threthdalwyr yn dda. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylem eistedd yn ôl a llaesu dwylo. Felly, mae'r Bwrdd yn cynnig adolygu rhai o'r rheolau a amlinellir yn y Bennod hon i'w gwneud yn fwy tryloyw ac yn gliriach i'r Aelodau a threthdalwyr.

2.7. Yn gyntaf, mae'r Bwrdd wedi cynnwys paragraff ychwanegol i egluro'r hyn sy'n digwydd i'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol pan wneir newidiadau i'r dyraniadau yn ystod y flwyddyn yn sgil newidiadau i aelodaeth y Cynulliad.

2.8. Yn ail, mae'r Bwrdd wedi diwygio'r geiriad ym mharagraffau 2.3.2 a 2.3.7 i'w gwneud yn glir bod yn rhaid cyflwyno hawliadau o fewn amserlen y cytunwyd arni ac na all Aelodau hawlio am ffioedd taliadau hwyr sy'n gysylltiedig â'u treuliau. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cynnwys darpariaeth bod tri dyfynbris yn cael eu darparu ar gyfer eitemau sy'n costio £750 neu ragor, neu lle mae rhwymedigaethau contractiol dros oes contract yn costio £750 neu ragor, sy'n ategu'r rheolau presennol mewn man arall yn y Penderfyniad.

2.9. Yn drydydd, mae'r Bwrdd wedi diwygio'r testun ym mharagraff 2.4.1 sy'n ymwneud â Threuliau Eithriadol. Mae'r Bwrdd wedi diwygio'r paragraff hwn drwy gael gwared ar gyfeiriadau at anabledd neu gyfrifoldebau gofalu gan fod yr anghenion hyn bellach yn cael eu diwallu gan y rheolau a nodir yn y Bennod 3A newydd.

2.10. Yn ystod ein cyfnod yn y swydd mae'r Bwrdd hefyd wedi ceisio ei gwneud yn haws i Aelodau wneud cais am Dreuliau Eithriadol, os bydd angen cymorth o'r fath arnynt. Oherwydd natur y Penderfyniad, nid yw'n bosibl iddo allu rhagweld pob achos posibl a allai olygu bod angen cymorth eithriadol ar Aelodau etholedig. Mae'n bwysig bod unrhyw un sy'n Aelod yn gallu cyfrannu a chymryd rhan lawn yn ei rôl, beth bynnag fo'i sefyllfa bersonol.

2.11. Yn ystod y Pumed Cynulliad, mae'r Bwrdd wedi cyflwyno pro-forma i gynorthwyo Aelodau i wneud cais am arian ac adolygiad blynyddol o achos Aelod unigol dros dreuliau eithriadol os bydd ei angen yn barhaus. Mae'r pro-forma yn amlinellu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y Bwrdd cyn iddo ystyried unrhyw hawliad am dreuliau eithriadol, ac mae'r Bwrdd o'r farn y dylid parhau i ddefnyddio'r pro-forma yn y Chweched Cynulliad. Fel rhan o'r broses hon, mae testun ychwanegol wedi'i gynnwys (ym mharagraff 2.4.6A) i egluro y gallai fod angen i Aelodau roi tystiolaeth ychwanegol os yw eu hamgylchiadau wedi newid ar ôl yr adolygiad blynyddol o'u treuliau eithriadol.

Pennod 3: Tâl Aelodau

2.12. Mae adran 13 o'r Mesur yn darparu mai dim ond un Penderfyniad y caiff y Bwrdd ei wneud yn ystod pob tymor Cynulliad pum mlynedd o ran cyflogau Aelodau a thalu cyflogau i'r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol. Gellir ailedrych ar y penderfyniad hwn os bydd amgylchiadau eithriadol yn golygu y byddai'n gyfiawn ac yn rhesymol gwneud hynny. Mae'n ofynnol yn ôl adran 3 o'r Mesur i'r Bwrdd arfer ei swyddogaethau gyda'r bwriad o roi lefel o dâl i Aelodau:

- sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni, ac
- nad yw, ar sail ariannol, yn atal personau y mae ganddynt yr ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad,

2.13. Mae Pennod 3 o'r Penderfyniad yn nodi'r cyflogau a'r trefniadau pensiwn y mae gan Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol (gan gynnwys Gweinidogion Cymru, Llywyddion a Chadeiryddion Pwyllgorau) hawl iddynt, a'r trefniant mynegeio sy'n berthnasol. Dim ond ar ôl iddynt dyngu llw neu gadarnhau teyrngarwch yn unol ag adran 23 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 y mae gan Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol yr hawl i hawlio cyflog.

2.14. Caiff y cyflog sy'n daladwy i Aelodau a deiliaid swyddi ei addasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol â'r newid o ran Enillion Canolrif gros cyflogeion amser llawn yng Nghymru, yn ôl yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE), dros y 12 mis blaenorol (o fis Ebrill i fis Ebrill). Nodir y cyflogau sy'n daladwy yn 2019-20 yn **nhabl 1**.

Tabl 1 Cyflogau Aelodau a deiliaid swyddi (2019-20)

| Swydd Ychwanegol | Cyflog sylfaenol | Cyflog deiliaid swyddi | Cyfanswm Cyflog |
|---|------------------|--|-------------------------|
| Prif Weinidog Cymru | £67,649 | £80,334 | £147,983 |
| Gweinidogion Cymru | £67,649 | £38,052 | £105,701 |
| Y Cwnsler Cyffredinol² | £67,649 | £38,052 | £105,701 |
| Dirprwy Weinidog | £67,649 | £22,197 | £89,846 |
| Y Llywydd | £67,649 | £43,338 | £110,987 |
| Y Dirprwy Lywydd | £67,649 | £22,197 | £89,846 |
| Comisiynwyr y Cynulliad | £67,649 | £13,741 | £81,390 |
| Cadeiryddion pwyllgorau (uwch) | £67,649 | £13,741 | £81,390 |
| Cadeiryddion pwyllgorau (is) | £67,649 | £9,154 | £76,803 |
| Aelod o'r Pwyllgor Busnes | £67,649 | £9,154 | £76,803 |
| Arweinydd grŵp gwleidyddol nad yw mewn Llywodraeth³ | £67,649 | £13,741 + £1,057 yr Aelod hyd at £38,052 | £84,561-£105,701 |

2.15. Yn ystod ei adolygiad, bu'r Bwrdd yn ystyried y dystiolaeth ar gyfer newidiadau pellach i gyflogau, gan gynnwys rhesymeg y Bwrdd blaenorol dros y cynnydd mewn cyflog ar gyfer y Pumed Cynulliad, cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau a gyflawnwyd gan Aelodau, y newidiadau posibl i gyfrifoldebau'r Aelodau yn y Chweched Cynulliad, a chymaryddion perthnasol yn seneddau eraill y DU. Nid yw'n glir eto beth fydd y goblygiadau i rolau a chyfrifoldebau'r Aelodau o ganlyniad i Brexit a gwaith y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Bydd unrhyw newidiadau i'w rolau a'u cyfrifoldebau yn cael eu dylanwadu gan ffactorau allanol o'r fath, ond hefyd gan y ffordd y mae'r Cynulliad, ei bwyllgorau a'i Aelodau'n penderfynu ymateb. Felly, nid yw'r ffactorau hyn yn sbardun ar gyfer unrhyw newidiadau i gyflogau Aelodau neu ddeiliaid swyddfa ar hyn o bryd.

² Os nad yw'r Cwnsler Cyffredinol yn Aelod, cyfanswm y cyflog sy'n daladwy yw £105,701, sy'n cyfateb i'r cyflog sylfaenol sy'n daladwy i'r holl Aelodau ynghyd â'r cyflog deiliad swydd ychwanegol sy'n daladwy am swydd y Cwnsler Cyffredinol.

³ Mae Rheol Sefydlog 1.3 yn darparu mai grŵp gwleidyddol yw (i) grŵp o Aelodau sy'n perthyn i'r un blaid wleidyddol gofrestredig sydd ag o leiaf dri Aelod; neu (ii) tri Aelod neu fwy sydd, heb fod yn aelodau o blaid wleidyddol gofrestredig a gynhwysir yn Rheol Sefydlog 1.3 (i), wedi hysbysu'r Llywydd eu bod yn dymuno cael eu trin fel grŵp gwleidyddol.

2.16. Ar sail y dystiolaeth, mae'r Bwrdd wedi dod i'r casgliad felly bod y lefelau'r cyflog sylfaenol a'r cyflog deiliad swyddi ychwanegol presennol yn parhau i fod yn briodol ar gyfer y Chweched Cynulliad. Daeth i'r casgliad hefyd fod y trefniadau mynegeo cyfredol yn parhau i fod yn briodol gan eu bod yn sicrhau bod cyflogau'r Aelodau'n adlewyrchu newidiadau o ran enillion cyfartalog yng Nghymru. Mae'r Bwrdd o'r farn bod hwn yn parhau i fod yn drefniant priodol o dan amgylchiadau ariannol ehangach Cymru. Mae hyn yn deg i'r Aelodau ac yn cynnig gwerth am arian i drethdalwyr Cymru. Roedd yr holl ymatebwyr a ymatebodd i'r trydydd ymgynghoriad yn sgil yr adolygiad yn cytuno â barn y Bwrdd. Felly, cytunodd y Bwrdd i gynnal y lefelau cyflog presennol sy'n daladwy i Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol, yn amodol ar drefniadau mynegeo blynyddol, drwy gydol y Chweched Cynulliad. Y lefelau cyflog a amlinellir yn y Penderfyniad drafft yw'r rhai ar gyfer 2019-20, o reidrwydd. Bydd cyflog gwirioneddol blwyddyn gyntaf y Chweched Cynulliad yn ddarostyngedig i'r mynegai ASHE fel yr amlinellwyd (sydd heb ei gyhoeddi eto), felly bydd y lefelau cyflog terfynol ar gyfer 2021-22 yn cael eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2021.

2.17. Mae'r Bennod hon hefyd yn cynnwys tri newid arall. Wrth adolygu cyflogau Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol, mae'r Bwrdd wedi nodi anghysondeb yn y Penderfyniad sy'n ymwneud â'r cyflog y mae gan berson sydd wedi'i ddynodi'n Gwnsler Cyffredinol hawl iddo.

2.18. Caiff Cwnsler Cyffredinol dynodedig gyflawni swyddogaethau'r Cwnsler Cyffredinol os bydd y swydd yn wag neu os na all y Cwnsler Cyffredinol weithredu fel arall. Fel arfer, bydd y swydd yn wag fel hyn pan fydd y Prif Weinidog yn newid, oherwydd bydd y Cwnsler Cyffredinol yn gadael ei swydd pan fo'r Cynulliad enwebu Prif Weinidog newydd. Yna, bydd y Prif Weinidog newydd yn enwebu rhywun i'w benodi'n Gwnsler Cyffredinol. Bydd swydd y Cwnsler Cyffredinol yn parhau'n wag nes bod enwebiad y Prif Weinidog ar gyfer Cwnsler Cyffredinol wedi'i dderbyn gan y Cynulliad a'i gymeradwyo gan y Frenhines. Tra bydd y swydd yn wag, neu yn ystod cyfnodau pan fydd y Cwnsler Cyffredinol yn methu â gweithredu fel arall, mae adran 49(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i'r Prif Weinidog benodi Cwnsler Cyffredinol dynodedig i gyflawni swyddogaethau'r Cwnsler Cyffredinol, am hyd at chwe mis. Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn darparu bod yn rhaid i'r Llywydd hysbysu'r Cynulliad ynglŷn ag unrhyw ddynodiad o'r fath. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes darpariaeth ar gyfer talu cyflog i Gwnsler Cyffredinol dynodedig. Mae'r Bwrdd wedi penderfynu gwneud darpariaeth ar gyfer hyn yn y Penderfyniad fel yr amlinellir ym mharagraff 3.1.7.

2.19. Yn yr un modd, mae'r Bwrdd yn credu y byddai'n ddoeth rhoi darpariaeth debyg ar waith ar gyfer yr amgylchiadau prin pan fo angen i'r Cynulliad benodi Prif Weinidog dros dro (fel y nodir yn adran 46(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Yn hynny o beth, mae'r Bwrdd wedi

cynnwys darpariaeth debyg i ddarpariaeth y Cwnsler Cyffredinol dynodedig ar gyfer Prif Weinidog "dynodedig" yn ei Benderfyniad drafft. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i chynnwys ym mharagraff 3.1.6.

2.20. Gwneir darpariaethau tebyg hefyd ym mharagraffau 3.1.8 a 3.1.9 yn y drefn honno mewn perthynas ag Aelod a etholir yn unol â Rheol Sefydlog 6.24 i weithredu fel Llywydd dros dro ac Aelod a benodir yn unol â Rheol Sefydlog 17.22 fel Cadeirydd Pwyllgor dros dro. Ni fydd Aelod a benodir yn Gadeirydd Pwyllgor dros dro yn gymwys i gael taliad cyflog deiliad swydd ychwanegol os bydd y cyfnod y mae'n arfer swyddogaethau Cadeirydd Pwyllgor yn llai nag un mis calendr. Bwriad hyn yw sicrhau nad yw Aelod a benodir yn Gadeirydd Pwyllgor am gyfnod byr iawn yn gymwys i gael taliad (ee pe byddai wedi'i benodi i gadeirio un cyfarfod yn unig).

2.21. Ni fydd y gohiriad o un mis calendr cyn dechrau talu'r cyflog ychwanegol ar gyfer Cadeirydd Pwyllgor dros dro yn gymwys i swyddi'r Prif Weinidog dynodedig, Cwnsler Cyffredinol dynodedig na'r Llywydd dros dro. Cynigir y bydd y cyflogau ychwanegol ar gyfer y swyddi hynny'n dechrau cael eu talu ar adeg y penodiad neu'r etholiad. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu efallai na fydd Cadeirydd Pwyllgor dros dro o reidrwydd yn arfer holl gyfrifoldebau Cadeirydd parhaol y Pwyllgor. Er enghraifft, efallai y bydd yn cael ei benodi'n unswydd at ddibenion cadeirio cyfarfodydd am gyfnod byr, heb arfer cyfrifoldebau eraill y Cadeirydd parhaol. Mae rôl Prif Weinidog dynodedig, Cwnsler Cyffredinol dynodedig neu Lywydd dros dro yn wahanol yn hyn o beth. Am y rhesymau hyn, mae'r Bwrdd o'r farn ei bod yn briodol gohirio dechrau talu cyflog deiliad swydd ychwanegol i Gadeirydd Pwyllgor dros dro am fis, ond nid cyflogau Prif Weinidog dynodedig, Cwnsler Cyffredinol dynodedig na Llywydd dros dro.

Pennod 3A: Cymorth ychwanegol

2.22. Mae'r Bwrdd yn cynnig cynnwys Pennod 3.A newydd sy'n amlinellu'r cymorth ychwanegol sydd ar gael i Aelodau o ran anabledd, gofal plant a gofalu am ddibynyddion, yn ogystal â'r darpariaethau absenoldeb i Aelodau sy'n dod yn rhieni yn ystod eu cyfnod yn y swydd. Lleihau'r rhwystrau i ymgeisio yn etholiadau'r Cynulliad a denu ystod fwy amrywiol o ddarpar ymgeiswyr yw bwriad y darpariaethau yn y Bennod newydd hon. Bydd yr holl ad-daliadau cost a nodir yn y Bennod hon yn cael eu talu o gronfeydd canolog.

2.23. Mae paragraff 3.A.2 yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael i Aelodau a staff cymorth ag anableddau, gan gynnwys y cymorth sydd ar gael i ymgysylltu ag etholwyr sy'n anabl. Mae'r gwariant y gellir ei hawlio o dan y ddarpariaeth hon (yn ogystal ag unrhyw rannau eraill o'r Penderfyniad lle bo hynny'n berthnasol) i dalu costau unrhyw 'addasiad rhesymol' sydd ei

angen. Mae hyn er mwyn lliniaru anfantais sylweddol lle bo hynny'n bosibl a allai effeithio ar Aelod, staff cymorth neu etholwr o'i gymharu ag Aelodau, staff cymorth neu etholwyr eraill nad ydynt yn anabl. Mae manylion ynghylch sut y gall Aelodau wneud cais o dan y ddarpariaeth hon wedi'u cynnwys hefyd. Mae'r paragraff hwn yn ymgorffori'r darpariaethau blaenorol a amlinellwyd yn y Gronfa Cydraddoldeb a Mynediad, a ariennir gan Gomisiwn y Cynulliad ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â Chomisiwn y Cynulliad i sicrhau na fydd unrhyw ddyblygu yn y dyfodol rhwng ffynonellau cyllid posibl er mwyn rhoi eglurder i'r Aelodau.

2.24. Mae paragraff 3A.3 yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael i alluogi Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu am naill ai plant neu oedolion dibynnol sy'n berthnasau, i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau fel Aelodau Cynulliad. Mae'r Bwrdd yn cefnogi'r egwyddor o gael gwared ar rwystrau a allai fel arall atal rhieni a gwarcheidwaid, pobl sy'n bwriadu dechrau teulu, neu bobl â chyfrifoldebau gofalu eraill, rhag sefyll i'w hethol i'r Cynulliad. Mae'r Bwrdd yn cydnabod nad yw'r angen i gydbwysu cyfrifoldebau gofalu a phroffesiynol yn unigryw i Aelodau, ond mae'n cydnabod y gall patrwm busnes y Cynulliad a natur swydd etholedig gyflwyno heriau penodol. Daeth y Bwrdd i'r casgliad nad oes nifer benodol neu uchafswm o oriau y gall Aelod weithio ac felly, mewn rhai amgylchiadau, gall rôl Aelod etholedig gyflwyno heriau unigryw nad ydynt yn berthnasol i swyddi eraill o bosibl.

2.25. Bu'r Bwrdd hefyd yn ystyried pa ddarpariaethau a oedd yn bodoli mewn mannau eraill, y darperir ar eu cyfer yn bennaf gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol. Nododd fod aelodau o'r prif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ac Awdurdodau Tân ac Achub yn gymwys i gael ad-daliad o'r costau angenrheidiol (hyd at gyfanswm o £403 y mis) am ofal ar gyfer plant ac oedolion dibynnol, ac anghenion cymorth personol.

2.26. Am y rhesymau hyn, mae'r Bwrdd yn cynnig y dylai'r Aelodau allu hawlio cyfraniad cyfyngedig i helpu tuag at gost gofal i blant dibynnol neu ddibynyddion eraill sy'n berthnasau sy'n dibynnu ar yr Aelod am eu gofal, pan fydd angen darpariaeth o'r fath o ganlyniad i gyfrifoldebau'r Aelod. Mae'r darpariaethau newydd yn nodi mai dim ond pan fydd costau gofal yn cael eu hysgwyddo y tu allan i oriau gwaith arferol y Cynulliad, fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad (h.y. 09:00 – 18:00 ar ddiwrnodau gwaith), y gellir ad-dalu'r costau hynny. Felly, dim ond ar gyfer costau sy'n deillio o weithio y tu hwnt i'r hyn a elwir yn "oriau gwaith arferol" i Aelodau y gellir hawlio'r cymorth hwn. Er nad yw'r diffiniad o 'oriau gwaith arferol' yn y Rheolau Sefydlog o bosib yn adlewyrchiad cywir o'r oriau a weithiwyd gan Aelodau yn ddiweddar, ystyrir hwn fel y diffiniad mwyaf cywir sydd ar gael ar gyfer pennu'r ffiniau ar gyfer defnyddio'r lwfans hwn.

2.27. O ganlyniad, cynigir y byddai gan bob Aelod hawl i hawlio hyd at uchafswm o £297 y mis o gyfraniad tuag at gostau gofal i blant neu oedolion dibynnol eraill yn eu gofal. Wrth gyfrifo uchafswm y lwfans misol hwn, mae'r Bwrdd wedi ystyried faint o oriau'r wythnos y gallai fod yn ofynnol i Aelodau weithio y tu hwnt i'r oriau gwaith arferol, ac amcangyfrif o gost gofal o'r fath. Mae'r paragraff yn nodi'r gofyniad y dylai unrhyw hawliadau a wneir ymwneud â'u gwaith a'u dyletswyddau fel Aelodau yn unig. Dim ond i ddarparwyr gofal cofrestredig y telir hawliadau a phan gyflwynir tystiolaeth ategol fel prawf cofrestru'r darparwr gofal a derbynebau am y gofal.

2.28. Mae paragraff 3A.4 yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael i Aelodau sy'n dewis cymryd ffurf ar absenoldeb rhiant. At ddibenion y paragraff hwn, ystyr absenoldeb rhiant yw absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth neu absenoldeb mabwysiadu.

2.29. Mae'r Bwrdd yn cefnogi cael gwared ar rwystrau posibl a allai fel arall atal rhieni, neu bobl sy'n bwriadu dechrau teulu, rhag sefyll i'w hethol i'r Cynulliad. Yn absenoldeb system ffurfiol ar gyfer cefnogi gwahanol fathau o absenoldeb rhiant, byddai unrhyw Aelod sydd am gael cymorth ar hyn o bryd yn gallu gwneud cais o dan y ddarpariaeth treuliau eithriadol ym adran 2.4 o'r Penderfyniad. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn cydnabod bod bod yn rhiant a'r angen cysylltiedig am absenoldeb rhiant yn agweddau arferol ar senedd amrywiol a modern, ac, yn y rhan fwyaf o achosion, yn rhywbeth y gellir disgwyl yn rhesymol i'r Aelodau hynny gynllunio ar ei gyfer ymlaen llaw. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod cyflwyno darpariaethau ar gyfer Aelodau sydd am gymryd absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu yn arloesol ac yn denu sylw'r cyhoedd. Mae'r Bwrdd yn awyddus i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cefnogi Aelodau a'u staff, annog ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol, tra hefyd yn sicrhau gwerth am arian ar gyfer y trethdalwr.

2.30. Mae paragraff 3A.4.3 yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael i Aelod sydd ar absenoldeb rhiant. Byddai hyn ar ffurf naill ai aelod ychwanegol o staff neu adnodd ychwanegol yn ôl yr angen, a all amrywio yn dibynnu beth fydd y trefniadau gorau i ddiwallu anghenion yr Aelod. Mae'r darpariaethau yn amlinellu'r hyn y gofynnir i'r Aelod ei ddarparu cyn y gall fanteisio ar gymorth o'r fath. Ar hyn o bryd, byddai Aelodau yn gallu gwneud cais am gymorth ychwanegol fel traul eithriadol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau tryloywder ac yn unol â'r nod o ddileu rhwystrau posibl i sefyll etholiad, cred y Bwrdd y byddai gwneud darpariaeth benodol yn y Penderfyniad i'r diben hwn yn decach ac yn fwy tryloyw.

Pennod 4: Gwariant ar Lety Preswyl

2.31. Mae'r Bwrdd o'r farn bod y darpariaethau a amlinellir ar gyfer gwariant ar lety preswyl yn gweithio'n dda ar y cyfan, felly rydym yn cynnig cadw'r system bresennol i raddau helaeth.

2.32. Fodd bynnag, bydd nifer fach iawn o Aelodau yn yr ardal allanol sydd wedi bod yn gwasanaethu am gyfnod hir yn dal i gael ad-daliad am daliadau llog morgais ar eu heiddo eu hunain. Er na chaniateir hyn ar gyfer Aelodau a etholwyd ers mis Mai 2011, rhoddwyd trefniadau trosiannol ar waith ar y pryd gyda'r bwriad o ddileu'r arfer yn raddol. Er gwaetha'r trefniadau hyn, ni phenhwyd dyddiad i'r taliadau ddod i ben, ac ar ôl ymgynghori, cytunodd y Bwrdd y dylai'r arfer hwn ddod i ben adeg diddymu'r Chweched Cynulliad.

2.33. Bydd Aelodau sy'n hawlio taliadau llog morgais ar hyn o bryd yn parhau i allu gwneud hynny yn ystod y Chweched Cynulliad, ond nid y tu hwnt i hynny (fel y nodir ym mharagraff 4.4.10). Yn ogystal, er mwyn sicrhau nad oes cost gynyddol i drethdalwyr yn ystod y cyfnod hwn, cytunodd y Bwrdd i nodi mai cyfanswm y taliad llog morgais y caiff Aelodau ei hawlio yn ystod y Chweched Cynulliad fyddai'r swm a hawli'r ar ddiwrnod cyntaf y Cynulliad hwnnw. Yr unig eithriad i'r egwyddor hon yw y bydd y Bwrdd yn caniatáu ar gyfer codiadau a gostyngiadau dilynol yn y gyfradd llog yn unol â chyfradd sylfaenol Banc Lloegr (paragraff 4.4.10 f). Cred y Bwrdd fod y penderfyniad hwn yn deg i drethdalwyr ac i Aelodau sy'n dibynnu ar y ddarpariaeth hon ar hyn o bryd.

2.34. Mae'r Bennod hefyd yn cynnwys mân newidiadau i baragraff 4.4.5 sy'n cadarnhau y bydd unrhyw fesurau diogelwch a argymhellir gan Dîm Diogelwch Comisiwn y Cynulliad yn cael eu hariannu gan y Penderfyniad.

2.35. Mae paragraff arall hefyd wedi'i gynnwys yn egluro bod yn rhaid dychwelyd unrhyw flaendaliadau tenantiaeth a ariennir gan y Penderfyniad i Gomisiwn y Cynulliad ar ôl i gytundeb rhentu ddod i ben (paragraff 4.4.5A).

Pennod 5: Siwrneiau'r Aelodau

2.36. Nid yw'r Bwrdd yn cynnig unrhyw newid sylweddol i'r bennod hon gan fod y darpariaethau'n gweithio'n dda.

2.37. Bydd y Bwrdd yn ailystyried y darpariaethau sydd ar waith ar gyfer teithio ar fusnes yr Undeb Ewropeaidd yn sgil ymadawiad y DU â'r UE. Mae angen ymgysylltu'n rheolaidd â'r UE ar gyfer nifer fawr o'r meysydd polisi datganoledig, ac er bod y cymorth sydd ar gael i Aelodau ar

hyn o bryd yn ddigonol ar gyfer hyn, mae'r ansicrwydd ynghylch y berthynas rhwng Cymru a'r UE yn y dyfodol yn golygu y gallai fod angen newid y paragraff hwn wrth i'r berthynas yn y dyfodol ddod yn gliriach. Mae hyn hefyd yn cynnwys dileu unrhyw gyfeiriadau at Aelodau o Senedd Ewrop yn y rhannau perthnasol o'r Penderfyniad gan nad oes gan Gymru'r math hwn o gynrychiolaeth mwyach.

2.38. Mae'r Bwrdd hefyd wedi mynd i'r afael ag anghysondeb o ran siwrneiau gan bwyllgorau. Mae'r Bwrdd wedi penderfynu bod angen diwygio'r darpariaethau sy'n amlinellu'r cymorth ar gyfer siwrneiau gan bwyllgorau er mwyn adlewyrchu'r arfer cyfredol (paragraff 5.16). Gan nad yw siwrneiau gan Bwyllgorau yn cael eu hariannu o Benderfyniad y Bwrdd, mae'r Bwrdd wedi dileu'r testun presennol ac wedi nodi bod unrhyw gyllid ar gyfer teithio ar fusnes pwyllgor yn fater i Gomisiwn y Cynulliad. Bydd y newid hwn yn gwneud y Penderfyniad yn gliriach drwy sicrhau bod Aelodau a staff cymorth yn gwybod pwy sy'n ariannu pob math o deithio busnes.

Pennod 6: Y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr

2.39. Mae'r Bwrdd yn cynnig nifer o newidiadau i'r Bennod hon. Y cyntaf yw newid yr enw o "Costau Swyddfa" i "Y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr" oherwydd y teimlir bod hynny'n well adlewyrchiad o'r ffordd y caiff y lwfansau a ddarperir o dan y bennod hon eu defnyddio.

2.40. Mae'r Bwrdd wedi cynnwys adran 6A.1 newydd sy'n amlinellu'r egwyddorion o ran swyddfeydd. Bydd angen i Aelodau sy'n dewis ariannu swyddfa etholaeth neu swyddfa ranbarthol o'r Penderfyniad sicrhau bod eu swyddfa/swyddfeydd yn dilyn cyfres o egwyddorion sy'n cynnal enw da'r Cynulliad, ac sy'n ddiogel, ac yn agored, ac yn groesawgar i bawb sy'n eu defnyddio. Disgwylir i Aelodau hefyd ddilyn gweithdrefn ffurfiol ar gyfer caffael swyddfa a sicrhau bod yr holl brydles, contractau a dogfennau perthnasol eraill sy'n gysylltiedig â'r lwfans hwn yn cydymffurfio â'r gyfraith. Er bod y Bwrdd o'r farn bod mwyafrif sylweddol yr Aelodau eisoes yn cydymffurfio â'r drefn hon, bydd ffurfioli'r rheolau hyn yn sicrhau gwell gwerth am arian i drethdalwyr.

2.41. Mae'r Bwrdd wedi diwygio paragraff 6.2.1 sy'n egluro mai dim ond ar gyfer costau swyddfa a chostau ymgysylltu ag etholwyr y gellir hawlio'r lwfans hwn, a rhaid i hawliadau ystyried unrhyw ganllawiau ar weithgarwch gwleidyddol y pleidiau. Mae'r paragraff hefyd yn dileu'r rhestr o eitemau a ganiateir fel y **cytunwyd** yn flaenorol gan y Bwrdd. Mae rhagor o destun wedi'i gynnwys ym mharagraffau 6.2.2 a 6.2.3 i egluro y bydd eitemau a hawlir sy'n costio mwy na £100 yn parhau i fod yn eiddo i Gomisiwn y Cynulliad, a bod yn rhaid cael a

chyflwyno tri dyfynbris ar gyfer eitemau sy'n costio £750 neu ragor. Mae hyn yn sicrhau cysondeb â darpariaethau mewn rhannau eraill o'r Penderfyniad.

2.42. Mae enw'r lwfans "cyflenwi dodrefn swyddfa" wedi'i newid yn adran 6.3 i'r "lwfans cychwyn swyddfa" i roi gwell adlewyrchiad o bwrpas y lwfans. Mae'r darpariaethau cyfredol yn y Penderfyniad yn galluogi Aelodau sy'n agor swyddfa am y tro cyntaf ar ôl iddynt gael eu hethol i brynu dodrefn, yn ogystal ag Aelodau'n dychwelyd am drydydd tymor. Rhoddwyd disgrisiwn yn y gorffennol i ariannu costau cychwynnol heblaw dodrefn, ac mae'r geiriad newydd a ddarperir yn y paragraff hwn yn adlewyrchu pwrpas y lwfans gwreiddiol yn well.

2.43. Mae'r darpariaethau ar gyfer caffael offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) hefyd wedi'u diwygio (paragraff 6.4.5). Gwnaed hyn i wneud y broses y mae disgwyl i Aelodau ei dilyn wrth brynu offer TGCh yn gliriach.

2.44. Mae adrannau 6.5 a 6.6 wedi'u diwygio rhywfaint i gadarnhau y bydd unrhyw gostau sy'n codi o'r darpariaethau hynny, y tu hwnt i'r terfynau a amlinellir, yn cael eu talu yn ganolog yn hytrach nag o lwfans yr Aelod unigol. Bydd hyn golygu ei bod yn fwy tryloyw, ac yn haws i'r rheini sy'n defnyddio'r Penderfyniad ddeall sut y mae'r darpariaethau hyn yn cael eu hariannu.

2.45. Mae'r Bwrdd wedi cyflwyno rhagor o ofynion i Aelodau cyn y gallant ariannu swyddfa o'r Penderfyniad. Ni fydd Aelod sydd am rentu swyddfa yn ei etholaeth neu ranbarth yn gallu gwneud hawliad mewn perthynas â rhent y swyddfa honno oni bai ei fod wedi cyflawni'r rhwymedigaethau a nodir yn adran 6.7. Mae hyn yn cynnwys caffael y prisiad a'r cyngor cyfreithiol a amlinellir yn y paragraff hwn.

Pennod 7: Cymorth staffio ar gyfer Aelodau

2.46. Mae'r Bwrdd eisoes wedi mynd i'r afael â phryderon a godwyd ynghylch gallu'r Aelodau i gyflawni eu gwaith yn effeithiol o ystyried eu cyfrifoldebau niferus a chynyddol. Rhoddodd y Bwrdd **newidiadau** ar waith o ganlyniad i'w adolygiad o gymorth i Aelodau yn 2018 ac maent yn cael yr effaith a fwriadwyd yn dilyn adolygiad pellach (gweler adroddiad y Bwrdd: Adolygiad o'r Cymorth Staffio, Gorffennaf 2019).

2.47. At hynny, mae'r Bwrdd wedi ceisio cyflwyno mwy o hyblygrwydd i Aelodau yn ei rôl fel cyflogwyr a allai helpu i fynd i'r afael â phryderon capasiti a'r gallu i ddenu pobl i ymgeisio ar gyfer y rolau hyn. Er enghraifft, mae'r Bwrdd eisoes wedi dileu'r terfyn uchaf o 111 awr ar gyfer cyfanswm yr oriau wedi'u cyfuno yr wythnos o ran cymorth staff ar gyfer pob Aelod.

2.48. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i ddiwygio'r polisi recriwtio i alluogi Aelodau i benodi staff ar sail penodiad tymor penodol o hyd at 18 mis. Ar hyn o bryd, y terfyn amser a ganiateir yw chwe mis. Yn sgil y newid hwn, eglurwyd yn y polisi bod yn rhaid i unrhyw swydd tymor penodol sy'n para y tu hwnt i chwe mis, fod yn destun proses recriwtio agored a theg, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw swydd barhaol. Gallai'r ddarpariaeth hon, er enghraifft, gynorthwyo Aelodau sydd am ddefnyddio unrhyw gronfeydd staffio nad ydynt wedi'u dyrannu i gyflogi staff ar sail tymor penodol ar gyfer prosiectau penodol.

2.49. Ychwanegwyd paragraff newydd 7.1.1 A i egluro bod pob Aelod yn gyflogwr a bod y Bwrdd yn darparu tâl, telerau ac amodau safonol ar gyfer yr holl staff cymorth. Pwrpas hyn yw amlinellu gwahanol rolau'r Aelod, a chylch gwaith y Bwrdd mewn perthynas â staff cymorth.

2.50. Mae'r Bwrdd hefyd wedi penderfynu cynyddu lefel cyfrifoldeb yr Aelodau a'r disgrisiwn sydd ganddynt yn y penderfyniadau a wnânt ar wario eu lwfansau staffio. Felly, mae'r Bwrdd wedi penderfynu mai'r Aelodau fydd yn gyfrifol am benderfynu cyflog cychwynnol eu staff cymorth, o fewn y graddfeydd cyflog a bennir gan y Bwrdd. Mae'r Bwrdd hefyd wedi nodi bod yn rhaid i Aelodau ddilyn y canllawiau ar feini prawf cyflog cychwynnol wrth arfer y disgrisiwn hwn (adran 7.2).

2.51. Mae adran 7.5 ar Gymorth Dros Dro wedi'i ddiwygio i gynnwys rheol newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gadw at bolisi Lleoli Di-dâl newydd wrth ddarparu lleoliadau di-dâl yn eu swyddfeydd, megis cyfleoedd gwirfoddoli. Bydd polisi o'r fath yn sicrhau bod disgwyliadau'r lleoliad yn cael eu cytuno gan y ddau barti dan sylw a bod cyfyngiadau lleoliadau o'r fath wedi'u nodi'n glir. Yn ogystal, cyfeirir at benderfyniad y Bwrdd wnaethpwyd yn dilyn Rhan 3 o'i adolygiad o'r Penderfyniad yn 2019, y dylid talu am bob lleoliad di-dâl o bedair wythnos neu ragor, ar wahân i'r rhai a drefnir trwy sefydliadau addysgol.

2.52. Gwnaed newidiadau llai mewn manau eraill yn y Bennod hon. Ym mharagraff 7.6.2, mae'r Bwrdd wedi mewnosod testun i egluro y bydd staff cymorth sy'n aelodau o'r teulu yn parhau i gael codiadau cyflog cynyddrannol a blynyddol.

2.53. Ym mharagraff 7.10.2, mae'r Bwrdd wedi cynnwys testun sy'n cadarnhau y gall staff cymorth wneud un cais y flwyddyn am flaenswm o'u cyflog os byddant yn dymuno gwneud hynny, yn unol â chanllawiau'r gyflogres.

2.54. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnig gwneud newid i'r Lwfans Staffio Dros Dro (TSA) (adran 7.12). Pan fydd Aelod yn gwneud cais am TSA pan fydd aelod o staff yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch, mae'r Bwrdd yn cynnig nodi'n glir bod yn rhaid iddo gadw at delerau'r

Weithdrefn Absenoldeb Salwch ar gyfer absenoldebau tymor byr neu dymor hir (paragraff 7.12.3).

2.55. Mae'r Bwrdd wedi cytuno hefyd i welliannau eraill sy'n cynnwys gwneud darpariaeth i staff cymorth gael amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus, ac i gynyddu'r categorïau cymhwysedd ar gyfer codiad o 100 y cant yn yr hawl statudol pan gaiff staff cymorth eu diswyddo fel yr amlinellir yn adran 7.13.

2.56. Mae'r newid mawr olaf yn y Bennod hon yn ymwneud â'r rheolau ynghylch defnyddio'r Gronfa Polisi, Cyfathrebu ac Ymchwil. Mae'r Bwrdd o'r farn nad oes digon o wybodaeth yn y Penderfyniad am y gronfa hon a'i phwrpas. Felly, mae "rheolau" perthnasol y gronfa a gyhoeddwyd yn flaenorol gan y Bwrdd wedi'u cynnwys yn adran 7.14.

Pennod 8: Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol

2.57. Mae Pennod 8 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i bleidiau gwleidyddol yn bennaf i'w galluogi i gyflogi staff er mwyn cynorthwyo pleidiau i gyflawni eu gwaith yn y Cynulliad.

2.58. Mae'r darpariaethau yn y Bennod hon yn adlewyrchu, ar y cyfan, y rhai a amlinellwyd yn y Bennod flaenorol. Mae'r Bennod hon yn ailadrodd y darpariaethau ar gyfer amlinellu rôl y cyflogwr, penodiadau tymor penodol, cyflog cychwynnol, amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus a threfniadau ar gyfer codiadau diswyddo.

2.59. Mae'r Bwrdd wedi gwneud diwygiadau eraill i adran 8.1 hefyd. Yn flaenorol, cyfrifwyd lwfansau costau staffio ar yr "Uchafswm Cost Posibl", hynny yw, cyllidebwyd costau aelodau staff ar uchafswm y raddfa gyflog, yn hytrach na chostau gwirioneddol (h.y. y pwyntiau graddfa cyflog gwirioneddol y cyflogwyd staff arnynt). Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod gan Bleidiau Gwleidyddol lwfansau digonol i gyflawni eu rhwymedigaethau cyflog dros nifer o flynyddoedd. Yna roedd y Pleidiau Gwleidyddol yn gallu defnyddio unrhyw falans oedd ar ôl yn eu cyllideb cyflogau staff i dalu costau staffio eraill, fel staff a gyflogir ar gontractau tymor penodol, lleoliadau gwaith ac interniaethau, teithio a chostau eraill cysylltiedig â swyddfa. Fodd bynnag, yn dilyn ei adolygiad o gymorth staff, newidiodd y Bwrdd ei Benderfyniad ym mis Ebrill 2019 fel bod cyllidebau cyflog staff yn cael eu cyfrif yn seiliedig ar gostau cyflog gwirioneddol. Mae cyfeiriadau at gyfrifo lwfansau cyflog staff yn seiliedig ar uchafswm y cyflogau posibl wedi'u dileu gan nad ydyn nhw'n berthnasol mwyach yn dilyn y newidiadau a gyflwynwyd gan y Bwrdd yn yr Adolygiad o Gymorth Staffio.

2.60. Mae'r gofyniad i Bleidiau Gwleidyddol gael tri dyfynbris ar gyfer gwariant ar eitemau o £750 neu ragor, a rhwymedigaethau contractiol o £750 neu ragor, hefyd wedi'i gynnwys er cysondeb, tra bod cyfeiriadau at daliadau morgais ym mharagraff 8.1.8 wedi'u dileu.

2.61. Mae'r newid olaf yn y Bennod hon i'w weld yn adran 8.7A sy'n egluro'r defnydd o'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol at ddibenion polisi ac ymchwil. Roedd y Penderfyniad blaenorol yn cyfeirio at hyn fel "y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu". I bleidiau gwleidyddol, nid oes cronfa bwrpasol o'r fath; yn lle hynny gallant ddefnyddio pa danwariant bynnag sydd ganddynt yn weddill o'u hymrwymadau cyflog staff i gomisiynu gwaith ymchwil polisi. Mae'r canllawiau ar ddefnyddio'r Gronfa hefyd yn nodi na all pleidiau gwleidyddol ddefnyddio'r lwfans at ddibenion cyfathrebu, ac felly mae'n briodol nawr bod yr adran yn cyfeirio at "Polisi ac Ymchwil" er eglurder.

2.62. Mae'r Bwrdd o'r farn nad oes digon o wybodaeth yn y Penderfyniad am y darpariaethau hyn. Felly, mae "rheolau" perthnasol y gronfa a gyhoeddwyd yn flaenorol gan y Bwrdd wedi'u cynnwys ym mharagraffau 8.7A.2 i 8.7A.4.

Pennod 9: Aelodau sy'n gadael eu swyddi

2.63. Dim ond mân newidiadau y mae'r Bwrdd yn eu cynnig i'r Bennod hon.

2.64. Mae'r Bwrdd wedi dileu'r holl gyfeiriadau at y trefniadau pontio a roddwyd ar waith ar gyfer Aelodau ar ddiwedd y Trydydd Cynulliad gan na fyddant yn gymwys yn y Chweched Cynulliad mwyach.

2.65. Mae paragraff 9.1.2 wedi'i newid i egluro'r dyddiad pan fydd Aelod sy'n sefyll i'w ailethol, ac yn colli, yn peidio â bod yn Aelod, fel yr amlinellwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

2.66. Wrth adolygu a dileu darpariaethau o dan y Bennod hon, mae'r Bwrdd hefyd wedi ystyried y budd a ddaw o gydgrynhoi'r darpariaethau sy'n ymwneud â Grantiau Adsefydlu mewn un paragraff. Felly, cynigir bod elfen y Grant Adsefydlu sydd ar gael i ddeiliaid swyddi (o dan adran 9.6 o'r Penderfyniad blaenorol) yn cael ei symud i baragraff 9.3.5.

3. Amcangyfrif o'r costau

Mae'r adran hon yn nodi amcangyfrif o'r costau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad a gynigir gan y Bwrdd.

Trosolwg

3.1. Mae'r Bwrdd wedi cynnal amcangyfrif o gyfanswm cost y Penderfyniad drafft.

3.2. Rhagwelir y bydd Penderfyniad y Bwrdd 2020-21 yn costio £16.17 miliwn.

3.3. Yn seiliedig ar y newidiadau a amlinellir yn y Penderfyniad drafft, ac o ystyried codiadau prisiau blynyddol, mae cost Penderfyniad drafft y Bwrdd ar gyfer 2021-22 yn dod i gyfanswm o tua £16.87 miliwn. Mae hyn yn gynydd o oddeutu 4.3 y cant (£700,000) o'i gymharu â 2020-21 (blwyddyn lawn olaf y Pumed Cynulliad), a'r cynnydd a ragwelir yn y cyflogau sy'n cyfrif am y mwyafrif ohonynt. Mae amlinelliad yn Nhabl 2 isod o ble y mae'r costau ychwanegol yn codi.

3.4. Yn y gorffennol, gosodwyd cyllidebau staff ar y gost uchaf bosibl. Fodd bynnag, mae'r patrymau gwariant yn y Pumed Cynulliad wedi dangos bod y costau'n tueddu i fod yn is – yn bennaf oherwydd swyddi gwag ar gyfer 'staff cymorth'. Yn ystod y Pumed Cynulliad, cyflwynwyd 'darpariaeth swydd wag' er mwyn lleihau cyfanswm y gyllideb staff i adlewyrchu gwariant gwirioneddol yn well. Er y gall y Chweched Cynulliad ddilyn patrwm gwahanol, mae'n rhesymol disgwyl y bydd Aelodau'n cymryd amser i recriwtio staff ar ôl yr etholiad, felly mae darpariaeth 'swydd wag' o £1 miliwn wedi'i chynnwys i ostwng y gyllideb a ddarperir ar gyfer 'staff cymorth' yn y flwyddyn gyntaf. Bydd hyn yn cael ei adolygu ar ôl yr etholiad a'i addasu yn y blynyddoedd dilynol fel sy'n briodol.

Tabl 2: Amcangyfrif o gostau'r Penderfyniad ym mlwyddyn gyntaf y Chweched Cynulliad yn erbyn y costau a ragwelir ym mlwyddyn olaf y Pumed Cynulliad.

| | 2020-21 (amcangyfrifon) | 2021-22 (amcangyfrifon) |
|---|-------------------------|-------------------------|
| Cyflogau'r Aelodau a'r costau cysylltiedig | £6,544,000 | £6,740,000 |
| Cyflogau staff cymorth ac argostau | £8,797,000 | £9,061,000 |
| Lwfansau a Chostau Swyddfa | £1,831,000 | £2,070,000 |
| Swyddi Gwag a Throsiant Staff | (£1,000,000) | (£1,000,000) |
| Cyfanswm | £16,172,000 | £16,871,000 |

3.5. Gellir gweld amlinelliad o unrhyw gostau newydd a'r modd y maent yn gymwys i wahanol benodau'r Penderfyniad drafft isod.

Pennod 3: Tâl Aelodau

3.6. Mae'r Bwrdd yn credu y gallai fod ambell gost fach ychwanegol o ganlyniad i'r penderfyniadau a nodir yn y Bennod hon. Nid yw'r Bwrdd yn credu y byddai unrhyw gyllid ar gyfer Prif Weinidog dynodedig, Cwnsler Cyffredinol dynodedig neu Lywydd dros dro yn arwain at gostau ychwanegol. Fodd bynnag, pe bai angen Cadeirydd Pwyllgor dros dro, yna mae'r Bwrdd o'r farn ei bod yn rhesymol amcangyfrif y gallai fod un digwyddiad y flwyddyn ariannol, ac o'r herwydd mae wedi cynnwys un cyflog blwyddyn lawn i Gadeirydd Pwyllgor dros dro ar y gyfradd gyfredol o £13,741.

3.7. Amcangyfrifir y bydd cost flynyddol cyflogau Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol ynghyd ag argostau yn dod i gyfanswm o tua £6.74 miliwn ar ddechrau'r Chweched Cynulliad. Mae hyn yn gynydd o 3.0 y cant⁴ o'i gymharu â'r gost a ragwelir ar gyfer 2020-21 (£6.54 miliwn).

⁴ Amcangyfrif o newid canrannol yw hwn, ond gall hyn newid yn dilyn cyhoeddi'r ffigur ASHE ar gyfer 2021-22, sydd i gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2020.

Pennod 3A: Cymorth ychwanegol

3.8. Bydd costau'r newidiadau a amlinellir yn y Bennod hon yn dibynnu'n llwyr ar nifer yr Aelodau sy'n gwneud hawliadau yn erbyn y darpariaethau. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd wedi gwneud rhai rhagdybiaethau ar sail data hanesyddol ac wedi amcangyfrif y bydd costau blynyddol y bennod hon yn dod i tua £82,500.

3.9. Rhennir hyn fel a ganlyn:

- Swm o £5,000 ar gyfer y ddarpariaeth cymorth ar gyfer anabledau. Mae hyn £1,000 yn uwch na'r £4,000 a neilltuwyd o'r blaen ar gyfer y Gronfa Cydraddoldeb a Mynediad;
- £28,500 yn ychwanegol ar gyfer cynnig y Bwrdd i ddarparu cyfraniad tuag at gostau gofal;
- £49,533 yn ychwanegol ar gyfer y cynnig i ddarparu adnodd i Aelodau ar absenoldeb rhiant. Mae'r cyfanswm hwn yn seiliedig ar gyfanswm cost uchaf posibl gradd tâl staff cymorth ar lefel "Uwch Gyngorydd".

Pennod 7: Cymorth Staffio i Aelodau a Phennod 8: Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol

3.10. Er nad oes cynnydd yn y costau sy'n gysylltiedig â chynigion y Bwrdd ar gyfer y Penodau hyn, amcangyfrifir y bydd y costau sy'n gysylltiedig â diwallu gofynion staffio Aelodau a Phleidiau Gwleidyddol oddeutu £9.06 miliwn yn 2021-22. Mae hyn 3.0 y cant⁵ yn uwch na'r amcangyfrif o gost y ddarpariaeth hon yn 2020-21 (£8.8 miliwn).

⁵ Amcangyfrif o newid canrannol yw hwn, ond gall hyn newid yn dilyn cyhoeddi'r ffigur ASHE ar gyfer 2021-22, sydd i gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2020.

4. Cydraddoldeb

4.1. Fel yr amlinellir yn ei strategaeth ar gyfer 2016-2021, un o flaenoriaethau'r Bwrdd yw datblygu gwell dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n rhwystro pobl rhag sefyll yn etholiadau'r Cynulliad. Yn sgil hynny, mae'r Bwrdd am sicrhau bod y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad yn galluogi ac yn cefnogi ystod mor amrywiol â phosibl o ymgeiswyr i ddod yn Aelodau.

4.2. Er mwyn llywio ei asesiad o effaith y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad ar gydraddoldeb, byddai'r Bwrdd yn falch o glywed eich barn ar y pwyntiau a ganlyn:

- a allai'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon fod ag unrhyw oblygiadau i bobl sy'n uniaethu ag unrhyw nodweddion gwarchoddedig;
- a allai'r materion a godwyd gennych wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael effaith wirioneddol neu effaith bosibl ar bobl sy'n uniaethu â nodweddion gwarchoddedig fel y cânt eu diffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

4.3. Sylwer mai'r nodweddion gwarchoddedig a ddiffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yw: oedran, anabledd, aillbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

